Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr

## Briff i'r sector: sefydliadau addysg bellach

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English
**www.medr.cymru**

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

## Rhagair

O dan Adran 129 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, mae gan Medr gyfrifoldeb statudol i gyhoeddi Cod Ymgysylltu â Dysgwyr ynghylch cynnwys dysgwyr ym mhroses benderfynu eu darparydd. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i ddysgwyr:

- gymryd rhan ym mhroses eu darparydd o wneud penderfyniadau perthnasol;
- cael cynrychiolaeth effeithiol i'w lleisiau ym mhroses benderfynu eu darparydd; ac
- rhoi eu barn ar yr addysg maen nhw'n ei derbyn a materion sy'n destun pryder, neu o ddiddordeb iddynt.

Cynhaliodd Medr ymgynghoriad ar ddrafft y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn nhymor yr hydref 2025, a chyhoeddi'r Cod terfynol ym mis Ebrill 2026. Mae'r Cod yn berthnasol i bob darparydd yn y sector addysg drydyddol yng Nghymru: sefydliadau addysg bellach ac uwch, darparwyr prentisiaethau, darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned, ac ysgolion sy'n cynnwys chweched dosbarth. O dan Adran 101 o'r Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil, **rhaid** i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir sy'n cynnwys chweched dosbarth gydymffurfio â gofynion y Cod. Mae'n ofynnol i **sefydliadau AB** gydymffurfio â'r Cod o **1 Awst 2026,** fel amod yn gysylltiedig â chyllid.

Wrth inni ymgynghori a chynnal trafodaethau ehangach â'r sector trydyddol, gofynnodd darparwyr inni sicrhau bod y Cod yn cael ei deilwra i gyd-fynd â'r amrywiaeth eang iawn o sefydliadau a dysgwyr a geir yng ngwahanol rannau o'r sector. Rydym wedi datblygu'r briff hwn fel rhan o gyfres o ddeunyddiau cyfeiriol sy'n gosod y Cod yn ei gyd-destun ym mhob rhan o'r sector trydyddol. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth ymarferol ynghylch sut rydym yn disgwyl i'r Cod gael ei weithredu a'r dystiolaeth ar ei gyfer. Bwriedir iddo gael ei ddarllen ochr yn ochr â'r Cod ei hun, sy'n nodi'r gofynion penodol y mae'n rhaid i bob darparydd eu bodloni a'r dystiolaeth y mae'n rhaid iddynt ei darparu i Medr i ddangos cydymffurfiaeth.

Byddwn yn parhau i adolygu'r briff hwn i adlewyrchu'r adborth gan ddysgwyr a darparwyr, ac i ychwanegu adnoddau ac enghreifftiau pellach wrth iddynt gael eu datblygu.

## Ar gyfer pwy mae'r briff hwn?

- Penaethiaid, arweinwyr a llywodraethwyr sefydliadau addysg bellach (AB)
- Dysgwyr mewn sefydliadau AB, gan gynnwys undebau myfyrwyr ac unrhyw gynrychiolwyr dysgwyr a chyrff eraill sy'n cynrychioli dysgwyr
- Staff sefydliadau AB

## Cyd-destun y sector: Sefydliadau addysg bellach

Mae pob sefydliad AB yng Nghymru wedi sefydlu strwythurau i gynrychioli dysgwyr. Mae'r rhain fel arfer yn cynnwys cynrychiolwyr cyrsiau, myfyrwyr-lywodraethwyr, a chorff sy'n cynrychioli dysgwyr. Gall y corff hwn gael ei adnabod fel undeb myfyrwyr, neu gael enw a strwythur gwahanol, fel cyngor neu Senedd. Mewn AB, nid yw'n arferol i undebau myfyrwyr fod yn annibynnol ar y sefydliad fel y rhan fwyaf o undebau myfyrwyr prifysgol, ac nid oes gan y rhan fwyaf ohonynt swyddogion sabothol amser llawn.

Mae [Rhan II o Ddeddf Addysg 1994] yn rhoi diffiniad o undeb myfyrwyr sy'n berthnasol p'un a yw'r undeb yn gweithredu'n annibynnol ar sefydliad ai peidio. Dylai sefydliadau AB ystyried a yw eu hundebau myfyrwyr neu unrhyw gyrff eraill sy'n cynrychioli dysgwyr yn bodloni'r diffiniad hwn, ac os felly, mae ganddynt ddyletswydd statudol i gymryd camau rhesymol i gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn Adran 22 o'r Ddeddf Addysg.

O dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014, mae'n ofynnol yn statudol i Offerynnau ac Erthyglau Llywodraethu sefydliad AB ddarparu ar gyfer isafswm o ddau aelod-fyfyriwr ar ei gorff llywodraethu, sy'n cynrychioli buddiannau'r dysgwyr. Mae Medr yn ariannu Elusen UCM i ddarparu hyfforddiant i fyfyrwyr-lywodraethwyr AB, a'r staff sy'n eu cefnogi.

## Gofynion y Cod

Gofynion ar gyfer 2026 – 2027

- **Rhaid** i sefydliadau AB gyhoeddi ymrwymiad i ymgorffori a chefnogi ymgysylltiad effeithiol â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau cyn diwedd y flwyddyn academaidd
- **Rhaid** i hwn gydymffurfio ag egwyddorion Y Cod
- Tystiolaeth yn ofynnol drwy'r Ffurflen Sicrwydd Flynyddol (Hydref 2027)

Gofynion o 2027 – 2028

- **Rhaid** i sefydliadau AB adolygu'r ymrwymiad yn flynyddol
- **Rhaid** i sefydliadau AB ddarparu tystiolaeth o effaith ymgysylltu â dysgwyr
- Tystiolaeth yn ofynnol drwy'r Ffurflen Sicrwydd Flynyddol (o Hydref 2028)

Llywodraethu

- **Rhaid** i'r corff llywodraethu (neu'r corff cyfatebol) gadarnhau cydymffurfiaeth yn flynyddol
- Sicrwydd yn ofynnol drwy'r Ffurflen Sicrwydd Flynyddol (o Hydref 2027)

Dysgwyr

- **Rhaid** i ddysgwyr gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu'r ymrwymiad
- **Rhaid** hyrwyddo'r ymrwymiad mewn ffyrdd sy'n hygyrch i ddysgwyr

Mae'n **rhaid** i'r ymrwymiad gynnwys:

- Sut y caiff ymgysylltu â myfyrwyr ei ymgorffori a'i gefnogi wrth wneud penderfyniadau
- Sut yr aeth unrhyw gorff sy'n cynrychioli dysgwyr ati i gyd-ddatblygu (adolygu) yr ymrwymiad
- Sut mae dysgwyr wedi cymryd rhan yn y gwaith o'i ddatblygu (a'i adolygu)
- Sut y rhoddir ystyriaeth i farn dysgwyr amrywiol
- Pa ddysgwyr sydd wedi'u cynnwys

Lle bynnag y ceir corff sy'n cynrychioli dysgwyr (e.e. UM, cyngor, Senedd) **rhaid** i'r darparydd weithio mewn partneriaeth â'r corff hwnnw i:

- gyd-gynhyrchu'r ymrwymiad
- adolygu'r ymrwymiad yn flynyddol
- ei hyrwyddo mewn modd hygyrch ymhlith dysgwyr drwy sianelau cyrff cynrychioli darparwyr a dysgwyr

Lle bynnag y ceir corff sy'n cynrychioli dysgwyr **rhaid** i'r corff hwnnw lofnodi'r ymrwymiad i gadarnhau'r gofynion uchod mewn perthynas â gwaith partneriaeth.

## Yr ymrwymiad i ymgysylltu â dysgwyr

Mae'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr weithio gyda'u dysgwyr i ddatblygu a chyhoeddi ymrwymiad i ymgorffori a chefnogi ymgysylltu effeithiol â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau, yn unol ag egwyddorion y Cod.

Bwriedir i'r ymrwymiad roi adlewyrchiad clir a gonest o ymgysylltiad presennol dysgwyr wrth wneud penderfyniadau, yn hytrach na datganiad uchelgeisiol o fwriad, a dylid ei ddefnyddio fel offeryn gwella parhaus i gydnabod cryfderau, nodi meysydd i'w datblygu, a mynd i'r afael â bylchau.

Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau AB yn cyflenwi darpariaeth ar draws sawl rhan o'r sector trydyddol: fel darparwyr AU rheoleiddiedig neu'n cyflenwi darpariaeth AU ddynodedig neu wedi'i breinio; fel darparwyr prentisiaeth arweiniol neu bartneriaid consortiwm; fel aelodau o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned; yn ogystal â darpariaeth AB amser llawn a rhan-amser. Nid yw Medr yn disgwyl i sefydliadau greu ymrwymiadau ymgysylltu â dysgwyr ar wahân ar gyfer pob un o'r meysydd hyn, ond yn hytrach mabwysiadu dull sefydliad cyfan os yw hynny'n well ganddynt. Dylai ymrwymiad sefydliad nodi'n glir pa ddysgwyr sydd wedi'u cynnwys ynddo, a chyfeirio darllenwyr at unrhyw ymrwymiadau ar wahân sy'n berthnasol i'w dysgwyr.

Fodd bynnag, efallai y bydd achosion yn codi lle gallai fod yn fwy priodol i sefydliadau ddatblygu ymrwymiadau, polisïau neu strategaethau ar wahân i ymgysylltu â dysgwyr, er enghraifft:

- Prosesau cytunedig ar gyfer ymgysylltu ag oedolion sy'n dysgu yn y gymuned yn rhan o bartneriaeth ACL;
- Prosesau penodol ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr a gwerthuso effaith hynny mewn partneriaeth ag undeb myfyrwyr, lle nad yw'r undeb ond yn cynrychioli cyfran o boblogaeth y sefydliad o ddysgwyr; neu
- Prosesau cytunedig ar gyfer ymgysylltu â phrentisiaid yn rhan o gonsortiwm neu gytundeb is-gontractio.

Materion i sefydliadau benderfynu arnynt â'u cynrychiolwyr dysgwyr a'u sefydliadau partner, a gellir eu cynnwys ar ffurf dogfennau ategol. Yr hyn sy'n ofynnol gan Medr yw bod gan bob sefydliad AB un ymrwymiad i ymgysylltu â dysgwyr.

Wrth fonitro cydymffurfiaeth â'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr, bydd Medr yn gofyn am wybodaeth am weithgareddau ymgysylltu a'u heffaith ar holl ddysgwyr y sefydliad, gan gynnwys:

- Prentisiaid, lle bo'r sefydliad yn ddarparydd arweiniol (gan gynnwys sut y trefniadau i fonitro a chefnogi cydymffurfiaeth â'r Cod yn achos darpariaeth wedi'i his-gontractio)
- Myfyrwyr AU, lle bo'r sefydliad yn ddarparydd cofrestredig

Nid yw Medr yn manylu'n benodol ar strwythur na ffurf yr ymrwymiad, ac mae'n cynghori y dylai fod ar y ffurf sy'n fwyaf priodol i bob darparydd neu bartneriaeth/gonsortiwm a'i d/ddysgwyr. Gall hyn gynnwys enghreifftiau symlach neu fwy gweledol o ymgysylltu â dysgwyr, gyda dolenni i ddogfennau ysgrifenedig mwy ffurfiol lle bo angen er mwyn bodloni gofynion y Cod.

## Gall sefydliadau AB ymgysylltu â dysgwyr yn effeithiol drwy:

- Ddarparu a hyrwyddo llwybrau i bob dysgwr gymryd rhan mewn penderfyniadau, rhoi adborth, gwneud cwynion a chodi materion sensitif yn gyfrinachol a heb ofn
- Casglu a dadansoddi adborth yn rheolaidd drwy arolygon dysgwyr gan gynnwys ar lefel darparwyr ac yn genedlaethol, drwy werthusiadau o fodiwlau neu'n gysylltiedig â gwasanaethau a gyrchir gan fyfyrwyr unigol, a gweithio mewn partneriaeth â chynrychiolwyr dysgwyr i ddeall y materion sylfaenol a chytuno ar gynlluniau gweithredu
- Darparu llwyfannau digidol ar gyfer ymgysylltu; fforymau trafod ar-lein, apiau adborth, cyfarfodydd neuadd dref rhithwir neu fyrddau trafod
- Ymgysylltu â dysgwyr yn eu lleoliadau presennol, drwy glybiau, cymdeithasau a grwpiau cynrychioliadol
- Sefydlu cyrff cynrychioli dysgwyr (CCD) ffurfiol, a all gael eu hadnabod fel undeb myfyrwyr neu strwythur arall fel cyngor dysgwyr neu Senedd.
- Rhoi cefnogaeth i CCD, a allai fod ar ffurf swyddog-fyfyrwyr amser llawn neu ran-amser sy'n derbyn tâl am eu gwasanaeth; rhoi tâl i ddysgwyr am gymryd rhan mewn cynlluniau a phrosesau penderfynu; darparu lleoedd ac adnoddau; a neilltuo amser staff i gefnogi strwythurau a phrosesau ymgysylltu â myfyrwyr
- Rhoi cefnogaeth i'w myfyriwr-lywodraethwyr, gan gynnwys hyfforddiant, sefydlu a mentora (gweler yr adran "Dolenni ac adnoddau defnyddiol" am ganllawiau ar gefnogi myfyriwr-lywodraethwyr mewn AB)
- Sicrhau bod y corff llywodraethu cyfan wedi'i hyfforddi a'i gefnogi i ymgysylltu'n effeithiol â chynrychiolwyr dysgwyr, ac i ystyried llais y dysgwr wrth wneud penderfyniadau
- Sicrhau bod eu strwythurau a'u prosesau cynrychioli yn cwmpasu eu hystod lawn o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai mewn lleoliadau gwasgaredig fel safleoedd cyflogaeth a chymunedol
- Teilwra eu dulliau o ymgysylltu â dysgwyr i ddiwallu anghenion dysgwyr ar wahanol lefelau ac o allu amrywiol, fel creu canllawiau hawdd eu darllen i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol

- Sicrhau y gall dysgwyr gofnodi, gwerthuso a chymhwyso'r sgiliau a ddatblygir ganddynt drwy rolau cynrychioliadol ar eu CVs ac yn eu ceisiadau i brifysgolion
- Cefnogi ac annog pwyllgorau, prosiectau a grwpiau cymdeithasol a arweinir gan ddysgwyr
- Manteisio ar yr hyfforddiant, y gefnogaeth a'r adnoddau a ddarperir gan Medr drwy brosiectau a ariennir, fel hyfforddiant i lywodraethwyr a chefnogaeth yn gysylltiedig â llais y dysgwr, a gyflwynir gan Elusen UCM

**Gallai enghreifftiau o "benderfyniadau perthnasol" ar gyfer dysgwyr AB gynnwys:**

- Datblygiadau ar ystadau gan gynnwys prosiectau adeiladu newydd, gwaith adnewyddu neu ailwampio, yn enwedig penderfyniadau sy'n ymwneud ag amgylcheddau dysgu ac addysgu, neu ardaloedd cyffredin i ddysgwyr
- Datblygu ac adolygu polisïau sy'n wynebu dysgwyr fel strategaethau llesiant, gweithdrefnau disgyblu a gweithdrefnau cwyno
- Adolygu ymrwymiad y sefydliad i Siarter Cynefin a nodi camau gweithredu i wella ei heffaith
- Strategaethau, cynlluniau ac ymgyrchoedd yn gysylltiedig ag ymddygiad dysgwyr a'r defnydd o fannau cyffredin, fel polisïau ar fepio
- Polisïau sefydliadol ar ddefnyddio technoleg fel deallusrwydd artiffisial, meddalwedd arbenigol neu ffonau clyfar
- Gwerthuso a gwella gwasanaethau cymorth i ddysgwyr
- Datblygu cynlluniau gweithredu mewn ymateb i arolygon dysgwyr ac adborth arall

## Dolenni ac adnoddau defnyddiol

**Canllawiau Statudol:**

- Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru), 2014
- Deddf Addysg Rhan II, 1994

**Canllawiau a gwybodaeth am arfer da:**

- Ymchwil i'r Bartneriaeth â Myfyrwyr mewn Sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach yng Nghymru, 2020
- Cefnogi Myfyrwyr-Lywodraethwyr mewn Colegau, 2025
- Systemau Cynrychioli Dysgwyr mewn Colegau: yr Hanfodion, 2025

Mae Medr yn ariannu Elusen Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM) i gefnogi ymgysylltu â dysgwyr a gweithgareddau llais y dysgwr yn y sector AB, gan gynnwys darparu hyfforddiant i fyfyriwr-lywodraethwyr. Dylai darparwyr fanteisio ar rwydweithiau sector, hyfforddiant ac adnoddau a ariennir gan Medr i ymgorffori a chefnogi ymgysylltu effeithiol â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau.

## Cysylltu â ni

ymgysylltuadysgwyr@medr.cymru

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government